OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 310

## Rheoliadau Lleoli Plant (Cymru) 2007

**Sefydlu cofnodion**

**9.**—(1) Rhaid i awdurdod cyfrifol sefydlu, a chynnal cofnod achos ysgrifenedig mewn perthynas â phob plentyn y mae yn ei leoli.

(2) Rhaid i'r cofnod gynnwys—

(a) copi o'r trefniadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 4;

(b) copi o unrhyw adroddiad ysgrifenedig sy'n eu meddiant ynghylch lles y plentyn;

(c) copi o unrhyw ddogfen a ystyriwyd neu o unrhyw gofnod a sefydlwyd yn ystod neu o ganlyniad i adolygiad o achos y plentyn;

(ch) manylion o drefniadau ar gyfer cyswllt, o orchmynion cyswllt ac o orchmynion llys eraill yn ymwneud â'r plentyn;

(d) manylion o unrhyw drefniadau lle gweithredir person arall ar ran yr awdurdod lleol neu'r sefydliad a leolodd y plentyn; ac

(dd) rhesymau ysgrifenedig a ddarperir yn unol â pharagraff (3) neu baragraff (5) o reoliad 5.